**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

# ADRODDIAD Y COMISIWN DIGARTREFEDD

## PWRPAS

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried adroddiad y Comisiwn Digartrefedd. Ceir copi o'r adroddiad yn Atodiad 1.

## ARGYMHELLIAD

2. Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad cyn y drafodaeth yn y cyfarfod llawn ar 20 Tachwedd, ac yn rhoi'i farn ar yr adroddiad i'r cyfarfod llawn.

## AMSERU

3. Ar ôl ystyried barn y Pwyllgor, caiff adroddiad ei baratoi ar gyfer y cyfarfod llawn yn gynnar ym mis Tachwedd.

## CEFNDIR

4. Roedd y Cytundeb Partneriaeth yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu comisiwn tai i fynd i'r afael â phroblem digartrefedd. Sefydlwyd y Comisiwn Digartrefedd ddiwedd 2000, a chynhaliwyd naw cyfarfod rhwng Ionawr ac Awst 2001. Cadeiriwyd y Comisiwn gan y Dirprwy Weinidog, ac roedd yn cynnwys Cadeiryddion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd â chynrychiolwyr o'r sectorau statudol a gwirfoddol.
5. Bydd yr adroddiad o ddiddordeb mawr i'r sefydliadau hynny sy'n chwarae rôl wrth ddarparu gwasanaethau i bobl ddigartref. Yn arbennig, mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, sydd â dyletswyddau statudol i bobl ddigartref, ac asiantaethau gwirfoddol sy'n rhoi cyngor annibynnol ar dai, lloches a chymorth.
6. Mae'r adroddiad yn fwy pwysig oherwydd datblygiad y Mesur Digartrefedd, a fydd yn

rhoi cyfrifoldebau newydd i awdurdodau lleol, yn enwedig i gynnal adolygiadau digartrefedd a llunio a chyhoeddi strategaethau digartrefedd ar gyfer eu hardaloedd. Mae'n debyg y caiff y Mesur ei basio yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

7. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol ac ystod eang o sefydliadau statudol a gwirfoddol eraill wedi cael eu gwahodd i gyflwyno sylwadau cychwynnol ar yr adroddiad erbyn 17 Hydref. Rhoddir adroddiad llafar ar y sefyllfa ddiweddaraf i'r Pwyllgor gyda golwg gyffredinol ar yr ymatebion.
8. Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad, ac ar ôl iddo gael ei ystyried yn y cyfarfod llawn, bydd swyddogion yn parhau i drafod yn fewnol ac yn allanol sut i roi'r argymhellion ar waith. Adlewyrchir y broses hon mewn strategaeth ddigartrefedd genedlaethol ddrafft a gaiff ei chyflwyno i'r Pwyllgor ym Mawrth 2002, ac a fydd yn rhan o'r Strategaeth Dai Genedlaethol.

**YSTYRIAETH**

9. Dyma'r prif themâu a nodir yn yr adroddiad:

- Yr amrediad eang o bynciau sy'n gysylltiedig â digartrefedd, a'r angen am agwedd amlwasanaeth wrth fynd i'r afael â'i achosion a'i effeithiau.
- Pwysigrwydd gwaith ataliol i helpu pobl i osgoi digartrefedd.
- Yr angen am ddulliau strategol o fynd i'r afael â digartrefedd, gan gynnwys cydweithrediad a gwaith ar y cyd rhwng amrywiaeth eang o fudiadau sy'n gweithio ym meysydd gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, prawf, cyflogaeth a meysydd eraill yn ogystal â thai.
- Gwerth darparu adnoddau digonol i fynd i'r afael ag achosion digartrefedd a thrwy hynny liniaru ei effeithiau niweidiol a'i gostau.

**10.** Ymhlith y prif argymhellion mae:

- Ymgynghori ar ganllawiau i awdurdodau lleol ar strategaethau digartrefedd lleol.
- Sefydlu strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â digartrefedd.
- Monitro digartrefedd a'i achosion yn fwy manwl.
- Newid y targedau yn 'Gwell Cymru' i ganolbwyntio ar yr amser y mae pobl yn ei dreulio

mewn llety dros dro, ac ailystyried y cyfnodau o amser er mwyn gwneud i ffwrdd â'r angen i gysgu allan.

- Cynnwys tai a digartrefedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Hybu gwasanaethau cynghori ar faterion tai.
- Gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad ar eithriadau gan Joy Kent.
- Canolbwyntio'n fwy ar dai a digartrefedd mewn cynlluniau iechyd a chynlluniau gofal cymdeithasol.
- Angen sicrhau ei bod yn haws i'r digartref gael at wasanaethau camddefnyddio sylweddau.
- Angen mwy o wasanaethau maes a gwasanaethau adleoli i gefnogi pobl ddigartref.
- Cyflwyno argymhellion i Lywodraeth y DU i wella effeithiolrwydd y system fudd-daliadau.
- Angen gwella'r ffordd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ariannu. gwasanaethau brys a gwasanaethau cymorth i bobl ddigartref.
- Mwy o ymchwil ar achosion digartrefedd ac effeithiolrwydd yr ymatebion iddo.

**CYDYMFFURFIO**

**11.** Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau i ystyried unrhyw fater sy'n berthnasol i'w swyddogaethau o dan a. 40 Deddf Llywodraeth Cymru. O dan Adran 182 Deddf Tai 1996, gall y Cynulliad roi canllawiau i awdurdodau lleol ar arfer eu cyfrifoldebau mewn perthynas â digartrefedd. Mae'r pwerau perthnasol o dan Ddeddf Tai 1996 wedi'u dirprwyo i Weinidog y Cynulliad.

12. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra neu briodoldeb.
13. Anfonwyd copi o'r cyflwyniad hwn i Swyddfa Gydymffurfio'r Cynulliad.

**GOBLYGIADAU ARIANNOL**

14. Awdurdodau lleol a sefydliadau eraill:

Dim ar hyn o bryd. Caiff barn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ei gyfleu i gyfarfod llawn y Cynulliad Cenedlaethol pan fydd yn trafod yr adroddiad ar 20 Tachwedd. Caiff unrhyw benderfyniadau sy'n gofyn am fwy o adnoddau eu cymryd ar ôl y dyddiad hwnnw, ac yng ngoleuni sylwadau ar yr adroddiad oddi wrth awdurdodau lleol a sefydliadau eraill.

**15.** Y Cynulliad Cenedlaethol:

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cynulliad yn y dyfodol agos, heblaw am gostau gweinyddu y gellir eu cadw o fewn cyllideb gymeradwy'r Gyfarwyddiaeth Dai. Mae llawer o'r argymhellion yn golygu goblygiadau sylweddol o ran adnoddau i raglenni ariannu a chostau rhedeg adrannau'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd angen ystyried y costau ychwanegol hyn ymhellach fel rhan o'r broses o bwyso a mesur pob argymhelliad unigol, a bydd hyn yn ffurfio rhan o adroddiad y Pwyllgor ar y strategaeth ddigartrefedd genedlaethol y bwriedir ei chyhoeddi ym Mawrth 2002.

**THEMÂU TRAWSBYNCIOL**

**16.** Mae'r Comisiwn Digartrefedd wedi rhoi ystyriaeth ddwys i ddigartrefedd yng nghyd-destun yr ystod eang o faterion sy'n ei achosi, sy'n gysylltiedig ag ef ac y mae'n effeithio arnynt. Canlyniad hyn yw adroddiad sy'n cynnig sylwadau ac argymhellion ar sawl agwedd ar bolisi cyhoeddus ac sydd â goblygiadau i sawl un o adrannau'r Cynulliad Cenedlaethol yn ogystal â Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd a llawer o sefydliadau statudol a gwirfoddol eraill. Gellir ond mynd i'r afael â'r adroddiad drwy ymdrech ar y cyd ar draws adrannau'r Cynulliad a thrwy waith difwlch ar y lefel leol.

**Y Gangen Rheolaeth, y Digartref a Chynhaliaeth**

**Y Gyfarwyddiaeth Dai**

**Hydref 2001**